

Adroddiad Perfformiad

A large yellow Liebherr tower crane is the central focus of the image. The crane's lattice structure is clearly visible, and the name 'LIEBHERR' is printed in black on the horizontal jib. The crane is set against a bright blue sky filled with scattered white clouds. The perspective is from a low angle, looking up at the crane.

Mis Hydref -
Mis Rhagfyr
2021

1,127

o fusnesau micro a busnesau bach wedi cael eu cefnogi trwy ein cronfa Sgiliau a Hyfforddiant

851,223

o ymwelwyr newydd ar Am Adeiladu

7,322

o gyflogwyr wedi'u cefnogi gyda grantiau prentisiaeth

£242,992

wedi'i arbed mewn costau hyfforddiant cyflogwyr trwy ein llwyfan hyfforddi ar-lein.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn hyd yma

6,447

o weithwyr sy'n barod am y safle wedi'u creu trwy'r Gronfa Sgiliau Adeiladu

28,460

o gyflogwyr wedi cael grant ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cyfnod byr

750

o gymwysterau arbenigol wedi'u cyflawni yn y Coleg Cenedlaethol Adeiladu

256,358

o bobl wedi llwyddo yn y prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

7,520

Gynorthwywyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi'u hyfforddi

Cynnydd

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi diweddariad ar yr ymrwymiadau a wnaethom yn ein Cynllun Busnes 2021-22 i gefnogi'r diwydiant adeiladu. Mae'r holl weithgaredd yn dod o dan un o'n tair blaenoriaeth strategol:

Gyrfaoedd

Hyfforddiant a Datblygu

a Safonau a Chymwysterau





Cronfa Sgiliau Adeiladu (CSF)

Daeth ail gam hynod gynhyrchiol y Gronfa Sgiliau Adeiladu i ben ym mis Hydref. Hyfforddodd y gronfa **dros 6,000 o unigolion** i fod yn barod am y safle, ac mae 2,934 wedi symud ymlaen i gael cyflogaeth yn y diwydiant. Roedd 54% o'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant yn dod o grwpiau a oedd yn nodweddiadol heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes adeiladu.

Yn dilyn llwyddiant y CSF, rydym wedi sefydlu rhwydwaith o 13 canolbwynt Profiad Ar y Safle ledled Cymru a Lloegr, gyda mwy ar y gweill yn yr Alban yn ddiweddarach eleni. Rhwng 2021 a 2025, bydd dull canolbwynt CITB yn rhoi profiad ymarferol ar y safle i 16,000 o bobl, gan alluogi i leiaf 4,800 sicrhau cyflogaeth barhaus yn y diwydiant adeiladu.

Am Adeiladu

Mae Am Adeiladu yn parhau â'i berfformiad cryf fel cartref gwybodaeth am yrfaoedd adeiladu, gyda dros **850,000 o bobl** yn ymweld â'r safle hyd yma eleni.

Fe wnaeth yr ymgyrchoedd llwyddiannus Yn ôl i'r Ysgol ac Wythnos Genedlaethol y Graddedigion ymgysylltu â phobl ifanc â gyrfaoedd adeiladu, gan eu cyfeirio at Talentview Construction i ddod o hyd i gyfleoedd lleol. Rydym yn diweddarau Am Adeiladu yn barhaus gyda chynnwys perthnasol, llawn gwybodaeth, gan gynnwys ein gwybodaeth am adeiladu iechyd meddwl yn y diwydiant adeiladu, hyfforddiant gweithredwr peiriannau a beth yw'r Rhaglen FIR?

Gan adeiladu ar lwyddiant partneriaethau cyfredol, rydym yn datblygu cysylltiadau dyfnach â phartneriaid yn y diwydiant a fydd yn arwain at adran bartneriaeth ar y safle. Bydd rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arweiniad allanol yn helpu i ehangu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc.

Iechyd Meddwl

Mae iechyd Meddwl yn broblem ddifrifol sy'n effeithio gweithwyr adeiladu. Nododd ein hymchwil Iechyd Meddwl a Lles nodedig, er bod nifer cynyddol o fentrau da i fynd i'r afael â'r broblem, yn aml gall cymorth uniongyrchol yn y gweithle fod yn gyfyngedig. Mewn ymateb, rydym wedi hyfforddi 274 o Hyfforddwyr Iechyd Meddwl, sydd yn eu tro wedi hyfforddi **7,520 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** – gan ragori ar ein targed o 3,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Maent yn darparu ymatebion cymorth cyntaf hanfodol ac uniongyrchol i broblemau iechyd meddwl, oddi ar y safle ac ar y safle.

Ochr yn ochr â'r Samariaid, y Lighthouse Club a Laing O'Rourke, rydym yn datblygu cyfres o adnoddau lles ar gyfer y diwydiant, a ddisgwyllir ym mis Mehefin 2022.

Adeiladu Sgiliau

Rydym yn falch o fod wedi cyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth sgiliau aml-fasnach fwyaf y DU ym mis Tachwedd.

Er i gyfyngiadau Covid orfodi i lawer o'r digwyddiad gael ei gynnal yn rhithiol, roedd yn llwyddiant aruthrol. Cynhaliwyd cystadlaethau ar draws wyth maes sgiliau a bu'r hyfforddeion a'r prentisiaid adeiladu dawnus yn arddangos y dyfodol disglair sydd i ddod i'r diwydiant - gyda'r enillwyr yn cael eu coroni'n fyw mewn seremoni rithiol a gynhaliwyd ar Steph's Packed Lunch ar Sianel 4.

Enillodd Sam Dean, 19 oed, y fedal aur yn y gystadleuaeth blastro:

“Roedd Adeiladu Sgiliau yn brofiad da. Roeddwn i'n nerfus ar ddechrau'r gystadleuaeth, ond roedd y beirniaid yn barod iawn i helpu. Dysgodd Adeiladu Sgiliau i mi beidio â chynhyrfu, rhuthro na chanolbwyntio ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud, ond i fynd ar fy nghyflymder fy hun a chwblhau'r gwaith yn iawn.”

Mae paratodau eisoes ar y gweill ar gyfer digwyddiad eleni sy'n argoeli i fod yn fwy nag erioed.



Hyfforddiant a Datblygu

Prentisiaethau

Mae cefnogi cyflogwyr a'u prentisiaid gyda hyfforddiant, cyllid a darpariaeth yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n rôl. Mae ein harolwg Llais y Cwsmer yn awgrymu bod 44% o gyflogwyr am gyflogi prentis yn ystod y 12 mis nesaf, ond mae dod o hyd i ymgeiswyr da, dibynadwy sy'n lleol i'w hardal yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf.

Rydym wedi cefnogi **dros 7,000 o gyflogwyr** gyda grantiau prentisiaeth hyd yn hyn eleni, gan eu galluogi i gyflogi dros **18,000 o brentisiaid**. Mae dros £35m wedi'i ddarparu mewn grantiau, gan helpu i gael gwared ar ychydig o'r baich ariannol sydd ar gyflogwyr. Mae 1,846 o brentisiaid wedi elwa o'r cynllun Teithio i Hyfforddi, sy'n talu 80% o'r costau teithio a llety ar gyfer prentisiaid sy'n aros oddi cartref i gael hyfforddiant.

Mae'r Cynllun Rhannu Prentisiaethau yn parhau i gefnogi 253 o brentisiaid a 145 o gyflogwyr, gan alluogi busnesau na allant gynnig lleoliadau hirdymor i barhau i elwa o gael prentisiaid. Byddwn yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr dysgu i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cynllun prentisiaeth hyblyg, sy'n caniatáu i brentisiaid weithio ar leoliadau tymor byr gyda

sawl cyflogwr. Disgwylir y bydd y cynllun newydd yn dechrau am y tro cyntaf yn gynnar eleni.

Cyllid

Rydym yn parhau i helpu busnesau micro a bach i ddarparu hyfforddiant hanfodol o ansawdd uchel trwy ein Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant. Mae'r galw am y gronfa yn parhau'n gryf – gan **gefnogi 1,127 o fusnesau** hyd yma a bod o flaen ei tharged o 1,300 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae canran y ceisiadau a gymeradwywyd, a boddhad cyffredinol yn parhau i fod yn uchel, gan sicrhau bod busnesau bach yn gallu darparu'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Mae'r cyrsiau mwyaf poblogaidd a gyflwynir y chwarter hwn yn cynnwys ymwybyddiaeth o asbestos, storio olwynion garw a gweithio ar uchder. Mae gwerth ceisiadau unigol yn is nag arfer, gan adlewyrchu'r duedd bod busnesau'n cynnal hyfforddiant ar sail ar hap, yn hytrach na chynllunio ymlaen llaw.

Mae ceisiadau am y **gronfa ganolig** yn parhau i fod yn isel. Gall hyn fod oherwydd pwysau economaidd, gyda chwmnïau canolig eu maint yn blaenoriaethu llwyth gwaith cyfredol dros hyfforddiant. Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r gofyniad i weithgarwch hyfforddi fod yn newydd

wedi'i ddileu dros dro. Gobeithiwn y bydd hyn yn annog mwy o fusnesau canolig eu maint i wneud cais am gyllid, a byddwn yn gallu rhannu ei effaith yn ein hadroddiad terfynol o'r flwyddyn ariannol.

Mae'r **Gronfa Arwain a Rheoli** yn galluogi cwmnïau mawr i ddatblygu eu galluoedd arwain, rheoli neu oruchwylio. Mae cyfanswm o 37 o sefydliadau wedi'u cefnogi – roedd nifer y busnesau a gefnogwyd yn is na'r disgwyl oherwydd gwerth uwch pob cais a dderbyniwyd. Mae 11 o sefydliadau wedi cwblhau eu cynlluniau hyfforddiant ac wedi cyflwyno adroddiadau gwerthuso terfynol hyd yma. Mae Covid wedi effeithio ar ddarpariaeth hyfforddiant, er bod pob prosiect ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn y terfyn amser estynedig.

Grantiau Cymwysterau a hyfforddiant cyfnod byr

Mae ein Cynllun Grantiau yn sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Mae dros **13,000 o ddysgwyr** wedi cael grantiau i'w helpu i gyflawni eu cymwysterau; cynnydd sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, sy'n cynrychioli awydd cryf gan gyflogwyr i ddatblygu eu gweithlu.

Mae cefnogaeth ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cyfnod byr wedi gweld perfformiad yr un mor gadarn, gyda thros **28,000 o gyflogwyr yn cael grantiau** ar gyfer dros 189,000 o gyrsiau. Rydym ar y trywydd iawn i ragori ar y targed o gefnogi 230,000 o gyrsiau hyfforddiant cyfnod byr erbyn diwedd y flwyddyn.

Asesiad ar y safle yn yr Alban

Mae **138 o aseswyr newydd Yr Alban** o ansawdd uchel wedi'u hyfforddi hyd yma – rydym ar y blaen i'r amserlen i gyrraedd y targed o 150 erbyn diwedd y flwyddyn. Achosodd prinder aseswyr ar y safle oedi gyda phrentisiaid yn gallu cwblhau eu rhaglenni felly mae ein partneriaeth â 23 o golegau, asiantaethau'r Llywodraeth a darparwyr hyfforddiant preifat i fynd i'r afael â'r mater hwn yn hollbwysig.

Rydym yn gweithio gyda'r Scottish Energy Skills Partnership (ESP) i alluogi darpariaeth fwy effeithlon o asesiadau ar y safle, wrth gymhwyso lledaeniad daearyddol da o aseswyr ar draws y saith rhanbarth.



Hyfforddiant a Datblygu

Addysg Drochi

Mae **4,442 o bobl** wedi elwa o'n prosiect dysgu trochi arloesol ym maes twnelu, sydd ychydig yn llai na'r targed diwedd blwyddyn o 4,450. Gall twnelu fod yn broffesiwn beryglus i hyfforddeion, felly defnyddir realiti rhithiol ac estynedig i gyflwyno a hyfforddi pobl yn y maes; creu amgylchedd hyfforddi diogel, efelychiadol sydd yn y pen draw yn arbed amser ac arian i gyflogwyr.

Rydym wedi cysylltu â phedwar partner allanol i gyflwyno'r hyfforddiant, a fydd yn cael ei gynnal hyd at fis Rhagfyr 2022. Mae prosiect Coleg Dinas Plymouth yn dod i ben ym mis Mawrth ond bydd yn parhau heb gyllid CITB gan ei fod wedi bod mor llwyddiannus.

Hyfforddiant

Mae helpu i gadw pobl yn ddiogel ar y safle yn un o'n prif flaenoriaethau. Mae **dros 256,000 o bobl** wedi llwyddo yn eu prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd hyd yma, gan roi sicrwydd i gyflogwyr y gall eu gweithlu fod yn ddiogel yn y gwaith. Mae ein cyfres o gyrsiau Site Safety Plus (SSP) yn cefnogi ymwybyddiaeth am iechyd a diogelwch a datblygiad gyrfa – gyda dros 123,000 o bobl wedi cwblhau cwrs SSP hyd yma eleni, cynnydd sylweddol ar y flwyddyn ddiwethaf.

Gall ymgeiswyr ddewis cwblhau eu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth, o bell neu gydag e-ddysgu trwy ein plattform eGyrsiau. Mae e-ddysgu wedi **arbed dros £240,000 i weithwyr** a dros 3,000 o oriau o'i gymharu â chyrsiau dosbarth. Rydym yn benderfynol o barhau i wneud hyfforddiant hanfodol mor hygyrch â phosibl.

Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC)

Er gwaethaf gweithredu ar gapasiti llai oherwydd COVID-19, mae NCC wedi darparu a chwblhau hyfforddiant ar gyfer **6,455 o gynrychiolwyr** hyd yma. Rydym ar ein ffordd i gyrraedd targed eleni o hyfforddi 9,051 o unigolion.

Yn hollbwysig, mae NCC yn darparu hyfforddiant ar gyfer sgiliau lle mae argaeledd cyfyngedig neu ddim argaeledd arall yn rhywle arall. Bircham Newton yw'r unig safle yn y DU sy'n darparu hyfforddiant i brentisiaid gyda chraen tŵr, ac rydym wedi darparu hyfforddiant mewn gosod cerrig allanol, dymchwel ac adnewyddu, a thoeau plwm a metel caled ymhlith eraill - y mae gan bob un ohonynt ddarpariaeth gyfyngedig iawn mewn manau eraill. Rydym wedi **cofrestru 822 o gynrychiolwyr ar Gymwysterau Galwedigaethol arbenigol**, ac mae 750 ohonynt eisoes wedi cyflawni eu dyfarniad. Mae cynlluniau ar waith i ddychwelyd y colegau i gapasiti hyfforddi llawn a recriwtio mwy o hyfforddwyr sgaffaldio i fodloni'r galw disgwylidig.



Safonau a Chymwysterau S&C

Safonau a Chymwysterau S&C

Mae **104 o safonau ychwanegol wedi'u datblygu** a'u hychwanegu at y Cyfeirlyfr Hyfforddiant, gan ddod â chyfanswm eleni i 374, sy'n golygu bod 86% o'n hyfforddiant cyfnod byr wedi'i gefnogi gan safon y cytunwyd arni gan y diwydiant. Mae cael mwy o safonau ar y Cyfeirlyfr Hyfforddiant yn sicrhau bod hyd yn oed mwy o hyfforddiant bellach wedi'i achredu, gan arbed amser ac arian i gyflogwyr drwy leihau'r angen i ailadrodd hyfforddiant.

Mae ein gwaith **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** yn parhau a disgwylid gwblhau'r adolygiadau o waith maen, cladin, peirianeg simneiau, sgiliau treftadaeth a rheoli gweithrediadau contractio adeiladu erbyn diwedd mis Mawrth. Yn yr Alban, rydym yn gweithio'n agos gyda Skills Development Scotland a'r diwydiant i lansio'r cyntaf o'r adolygiadau fframwaith Prentisiaeth Fodern newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan dri adolygiad pellach yn cael eu lansio yn 2022 ac yn cynyddu datblygiadau wrth i ni symud i 2023 a 2024.

Rydym yn parhau i lunio pecyn newydd o gymorth sylweddol ar gyfer hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth, yn ogystal â datblygu cwrs hyfforddi ar-lein ar ymwybyddiaeth diogelwch tân newydd a fydd yn galluogi unigolion i weithio'n ddiogel ar adeiladau preswyl risg uchel.

Sut mae cyflogwyr yn elwa o'r Lefi

Mae'r Lefi yma i ddarparu anghenion sgiliau ar gyfer cyflogwyr adeiladu ledled Prydain Fawr. Dyma drosolwg o'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod y tri chwarter cyntaf o flwyddyn, gan gynnwys prentisiaethau, cyllid cyflogwyr a darparu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau:

- Mae'r Lefi'n sicrhau y gallwn barhau i gefnogi hyfforddiant a phrentisiaethau ym maes adeiladu, gyda chyflogwyr yn buddsoddi cymaint ag y gwnaethant cyn y pandemig. Mae'r galw wedi cynyddu am brofion a hyfforddiant, ac mae presenoldeb ar y cwrs yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Achosodd cyfyngiadau i grantiau a chyllid arall fod yn is na'r disgwyl, ond rydym yn rhagweld y bydd eu lefelau adferiad yn parhau
- Rydym wedi gweithio gyda diwydiant i ail ddechrau cyllid Lefi prosiectau oedd yn rhaid eu hatal yn ystod y pandemig, fel canolfannau ar y safle i gael dysgwyr yn barod am y safle. Mae'r rhain bellach ar waith, ond mae rhai wedi dechrau'n araf wrth i'r diwydiant barhau i adfer. Bydd y cyllid yn parhau i helpu i ddarparu gweithlu medrus iawn, ond bydd rhai, fel y Gronfa Arwain a Rheoli, yn cymryd ychydig yn hirach na'r disgwyl
- Er bod cyfyngiadau'n arafu ein gweithgarwch, rydym wedi buddsoddi £71.8m o Lefi o hyd mewn cyllid uniongyrchol gan gyflogwyr i gefnogi datblygiad y gweithlu cyfredol, hyfforddi'r genhedlaeth nesaf a chynorthwyo adferiad y diwydiant
- Nawr mae gennym fwy o sicrwydd ynghylch ein hincwm Lefi, rydym mewn sefyllfa i fuddsoddi arian mewn grantiau, wrth i hyfforddiant adfer, a rhaglenni newydd y byddwn yn eu cyhoeddi'n fuan, megis helpu i greu mwy o gyfleoedd i gael profiad gwaith.

FFYNHONELL INCWM	Hanner blwyddyn	
	Gwirioneddol £m	Cynllun Busnes £m
Lefi	99.5	96.6
Incwm Cynhyrchion a Gwasanaethau	35.2	32.6
Balans (I)/O'r Cronfeydd Wrth Gefn	-4.6	23.8
Cyfanswm Incwm	130.1	153.0

CYLLID UNIONGYRCHOL I GYFLOGWR

① Grantiau Prentisiaeth	36.2	37.0
② Grantiau Cymwysterau	9.8	9.2
③ Grantiau Hyfforddiant Cyfnod Byr	10.7	14.1
④ Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant	6.8	10.9
⑤ Gweithgarwch a Ariennir	8.3	12.3
Isgyfanswm	71.8	83.4

CYMORTH ARALL

⑥ Gwasanaethau Cymorth i Gyflogwyr - Ymgysylltu	3.1	3.2
⑦ Safonau, Cymwysterau a Dilysu	1.8	1.9
⑧ Polisi ac Ymchwil Sgiliau a Chyflogaeth	1.4	2.0
Isgyfanswm	6.3	7.2

DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU

⑨ Darpariaeth Hyfforddiant Uniongyrchol (NCC)	13.6	16.1
⑩ Prentisiaethau	19.4	23.9
⑪ Cynhyrchion a Gwasanaethau Eraill	10.5	11.4
⑫ Cost gweinyddu Lefi Grantiau, a Chynlluniau Ariannu	8.6	11.0
Isgyfanswm	52.1	62.5
Cyfanswm	130.1	153.0

